

## **Cofnodion o Gyfarfod yr Amgylchedd a Chyllid Cyngor Tref Dinbych a gynhaliwyd ddydd Llun 21 Gorffennaf 2025, 6.30pm drwy Hybrid.**

**Yn bresennol:** Cynghorwyr wyneb yn wyneb: Jan Tomlinson, Pauline Edwards, Gaynor Wood-Tickle, Roy Tickle, Philip Stevens, Sylvia Jennings, Ruth Griffiths a Matthew Jones. Jo Davies (Rheolwr Swyddfa)

**Zoom:** Dim

**Aelodau o'r Cyhoedd:** Dim

Cadeiriwyd y cyfarfod gan y Cynghorydd Jan Tomlinson a dechreuodd drwy groesawu pawb i ail Gyfarfod Amgylchedd a Chyllid 2025.

Cadarnhawyd nad oes larwm tân wedi'i drefnu, felly os bydd larwm tân yn seinio ar unrhyw adeg, cofiwch adael yr ystafell yn dawel drwy'r grisiau ac ymgynnull wrth yr angel.

**45. Ymddiheuriadau am absenoldeb:** Dim

### **46. Datganiad o Ddiddordeb Personol/ Rhagfarnllyd**

Dylai aelodau ddatgan unrhyw fuddiannau personol neu ragfarnllyd mewn unrhyw fusnes a nodwyd i'w ystyried yn y cyfarfod hwn: Dim

### **47. Diweddariad y Maer:**

**47.1** Cyfeiriodd y Cynghorydd JT at y Cynghorydd PS ynghylch ei ansicrwydd a oedd gan y pwyllgor Cyllid unrhyw bwerau penderfynu. Eglurodd y Cynghorydd PS ei fod yn teimlo os oedd y symiau a drafodwyd yn rhai mawr, dylai'r trafodion hyn fynd i'r Cyngor Llawn i'w cadarnhau. Cadarnhaodd y Cynghorydd JT, yn dilyn cadarnhad gan weithiwr Archwilio yn SDD, bod gan y Pwyllgor Cyllid y pŵer i wneud penderfyniadau ariannol a gaiff eu cyflwyno i'r Cyngor Llawn er gwybodaeth yn unig. Mae'r penderfyniadau hyn yn derfynol ac ni ellir eu dirymu.

Teimlai'r Cynghorydd PS y byddai'n arfer da o hyd, os yw'r sefyllfa ariannol yn ddadleuol neu'n ymwneud â swm sylweddol, y dylid mynd â'r mater i'r Cyngor Llawn. Cadarnhaodd y Cynghorydd JT y byddai'n codi'r mater hwn gyda'r swyddog Archwilio SDD i gael eglurhad pellach.

Dywedodd y Cynghorydd PE fod ystyriaeth o "swm mawr" yn oddrychol ac felly bod angen egluro hyn.

Sylwodd y Cynghorydd SJ bod y Cynghorwyr nad ydynt ar y Pwyllgor E&C wedi rhoi eu hymddiriedaeth i'r aelodau i wneud penderfyniadau ar eu rhan.

Ychwanegodd y Cynghorydd GWT fod nifer sylweddol o gynghorwyr ar y pwyllgor E&C ac felly ni ddylai fod problem gyda'r penderfyniadau.

Dywedodd y Cynghorydd PE fod y rhaglen waith ar gael i bawb, ac os oes unrhyw beth y mae cynghorydd am gyfrannu ato, mae croeso iddynt fynychu'r cyfarfod gan ei fod ar agor i bawb.

**47.2** Gofynnodd y Cynghorydd JT i'r cynghorwyr gadarnhau'r archwiliad mewnol ar gyfer 2023-2024 fel y gellir anfon cadarnhad i dîm Archwilio SDD – Dosbarthwyd papurau i'r cynghorwyr – Derbyniwyd a Chytunwyd

**47.3** Cadarnhaodd y Cynghorydd JT fod SDD yn cynnal ail archwiliad, y cyntaf yn fewnol ac ar hyn o bryd archwiliad allanol gan Archwilio Cymru. Mae JD yn gweithio'n agos gyda'r tîm archwilio yn SDD, a byddant yn cynorthwyo i lunio'r wybodaeth sydd ei hangen gan Archwilio Cymru. Gofynnodd JT am ganiatâd gan y Pwyllgor ac yn ddiweddarach gan y Cyngor Llawn i barhau i ddefnyddio SDD ar gyfer archwiliadau Cymru yn y canol a diwedd y flwyddyn – Dywedodd y

Cynghorydd PS ei fod yn gwneud synnwyr gan fod SDD wedi bod yn rhan o'r broses ers dechrau 2025 – Derbyniwyd a Chytunwyd – i'w gadarnhau gan y Cyngor Llawn.

## 48. Amgylchedd

**48.1** Gardd Dr Evan Pierce – E-bost gan Charlie Hall o Elwy Valley Tree Services ynglŷn â'r goeden sequoia farw yng Ngerddi EP: Cadarnhaodd JD mai eitem er gwybodaeth yn unig yw hon ar hyn o bryd. Yn unol â'n rheoliadau ariannol, rhaid cael tri dyfynbris.

Mae angen adfywio'r trafodaethau ynghylch y goeden i wneud penderfyniad gwybodus.

Cyfeiriodd y Cynghorydd SJ at gwmni arall y gellid cysylltu ag ef a bydd yn anfon y manylion at JD.

Soniodd y Cynghorydd PE am e-byst blaenorol gan y Cynghorydd AH oedd yn sôn am gadw'r pren a'i droi'n gerflun. Cadarnhaodd JD ei bod dal yn meddu ar y wybodaeth a'i bod yn barod i'w hadfer ar gyfer trafodaethau pellach – Nodwyd.

## 49. Cyllid

**49.1** Diweddariad ar Fancio Ar-lein ar gyfer Cyfrifon y Cyngor Tref – Nodwyd

**49.2** Adroddiadau Cymodi Banc – Mehefin 2025 – Nodwyd

**49.3** Rhestr o Daliadau a wnaed yn ystod Mehefin 2025 – Nodwyd

- Bydd taliadau sydd angen awdurdodiad yn cael eu hamlygu mewn **MELYN**
- Bydd Cymorth Grant yn cael eu hamlygu mewn **GWYRDD**
- Bydd cyflogau yn cael eu hamlygu mewn **GLAS**
- Bydd sieciau a ganslwyd yn cael eu hamlygu mewn **COCH**

Item no	Date	Chq No	Payable To	Description	Amount
49.3.1	06.06.2025	008179	J Davies	WTFC Refund	£60.00
49.3.2	06.06.2025	008180	J Davies	Eye Test (Employee responsibility)	£35.00
49.3.3	06.06.2025	008181	J Davies	Postage and Parking	£14.75
49.3.4	06.06.2025	008182	J Davies	Cupcake Boxes for AM	£10.49
49.3.5	06.06.2025	008183	J Davies	Cupcake Logos for AM	£16.99
49.3.6	06.06.2025	008184	Catalyst	June 2025 Broadband	£52.80
<b>49.3.7</b>	<b>06.06.2025</b>	<b>008185</b>	<b>Nery Evans</b>	<b>Cysgodfa Chq re-issue due to payee name change. Old chq no (008166) shredded in office, notes made</b>	<b>£800.00</b>

49.3.8	06.06.2025	008186	D Roberts	Floral arrangements for AM	£45.09
49.3.9	06.06.2025	008187	Jones & Graham	HMRC – June 2025	£700.62
49.3.10	06.06.2025	008188	Jones & Graham	Staff Salary + toil – June 2025	£1877.22
49.3.11	06.06.2025	008189	Jones & Graham	Pension – June 2025	£701.65
49.3.12	06.06.2025	008190	Jones & Graham	Pension Backdate – May 2025	£757.26
49.3.13	06.06.2025	008191	Canda Copyng	Photocopier lease – June 2025	£86.92
49.3.14	09.06.2025	008192	Starboard Systems Ltd	Scribe – End Of Year Health Check	£297.00
49.3.15	16.06.2025	008193	Catalyst	May Back-Up	£4.22
49.3.16	16.06.2025	008194	Shoreline Removals Ltd	Shredding Collection	£70.20
49.3.17	16.06.2025	008195	Dwr Cymru	E.P Garden Water Bill June 2025	£16.64
49.3.18	17.06.2025	008196	Zurich Municipal	Contents Insurance Annual Payment	£6,534.67
49.3.19	17.06.2025	008197	Denbighshire County Council	Bunting erection and removal June 2025	£1456.00
49.3.20	17.06.2025	008198	P. Liversidge	Footpath Cutting June 2025	£175.00
49.3.21	17.06.2025	008199	Denbigh Show Grant Aid	Grant Aid	£4000.00
49.3.22	23.06.2025	008200	Scottish Power	Dr E.P Gardens	£400.12
49.3.23	23.06.2025	008202	Catalyst	May Telephony	£58.78
49.3.24	23.06.2025	008203	Walled Towns Friendship Circle	Annual Subscription	£100.00
49.3.25	23.06.2025	008204	Julia Carter	Catering for Annual Meeting 2025	£195.00
49.3.26	23.06.2025	008205	P. Edwards	Refund – blue tack – office supplies	£1.00
49.3.27	23.06.2025	008206	Catalyst	PANDA-Antivirus, security update	£516.00

49.3.28	23.06.2025	008207	Flintshire County Council	Photo Conservation Work & Materials	£231.00
49.3.29	23.06.2025	008208	P Liversidge	EP Garden Litter pick	16.70
					<b>Total</b>
					<b>£19,231.12</b>

#### 49.4 – Credydau Banc a dderbyniwyd yn ystod Mehefin 2025 – Nodwyd

Item no	Date	Paid From	Description	Ref If Applicable	Amount
49.4.1	30.06.2025	NatWest	Bank Interest	N/A	£291.64
					<b>Total</b>
					<b>£291.64</b>

#### 49.5 – Taliadau sy'n gofyn am Awdurdodiad – Cytunwyd a Derbyniwyd

Item No	Date	Chq No	Payable To	Description	Amount
49.5.1	22.07.2025	008217	Denbigh In Bloom	Annual payment agreed in Budget meeting Jan 2025	£4000.00
49.5.2	22.07.2025	008218	Event Insurance Services Ltd (Zurich)	Fireworks Event Insurance 2025	£501.50
49.5.3	22.07.2025	008219	Bodfari Environmental	EP Garden Quarterly payment	£1018.20
49.5.4	22.07.2025	008220	Catalyst	Encryption Software	£118.00

#### 49.6 – Cymorth Grant

49.6.1 Roedd Jo Davies yn rhoi dadansoddiad o Gyllideb Cymorth Grant i'r Cyngor Tref ynglŷn â'r gwariant a'r symiau sy'n weddill ar gyfer y flwyddyn ariannol – Nodwyd

49.6.2 Cymorth grant a awdurdodwyd gan y Cyngorwyr Tref –

Item no	Code	Chq No	Chq Payable To	Amount	Notes
49.6.2.1	S137	008221	Cerebral Palsy Cymru	£100.00	None

## **49.7 – Cadarnhad o daliad siec a dderbyniwyd:**

**49.7.1** – Ysgol Plas Bron Dyffryn – Nodwyd

## **49.8 – Adolygiad 6 mis o sut y defnyddiwyd y grantiau:**

**49.8.1** – Gŵyl Ganol Haf Dinbych – Nodwyd

Cododd y Cynghorydd PE fater taflenni a brynwyd gan ddefnyddio Cymorth Grant. Nid yw llawer ohonynt wedi cael eu codi gan drigolion. Roedd y taflenni'n sylweddol ac o ansawdd da, ond mynegwyd pryder a oes gwir angen y safon hon yn y dyfodol. Trafodaeth am Bwyllgor Gŵyl Ganol Haf Dinbych – Alyn Ashworth, Lara Pritchard a Philip Stevens. Awgrymwyd y gallai cynghorydd tref godi'r mater hwn yn ffurfiol.

## **49.9 – Cais i hepgor rheoliadau ariannol 11.1.c ar gyfer caffael o un ffynhonnell (Tân Gwyllt) ar gyfer y canlynol:**

- Uproar
- Safety Focus
- Core Highways

Cynnig gan y Cynghorydd MJ i hepgor rheoliadau ariannol 11.1.c yn yr achos hwn, wedi'i eilio gan y Cynghorydd GWT – Cytunwyd a Derbyniwyd

## **49.10 – Dyfynbrisiau:**

**49.10.1** – Core Highways ar gyfer Cau Ffyrdd Tân Gwyllt – Derbyniwyd

Cadarnhaodd JD mai ar gyfer gwybodaeth yn unig yw'r dyfynbrisiau canlynol ar hyn o bryd oherwydd bod rheoliadau ariannol 11.1.c yn mynnu 3 dyfynbris ar gyfer gwasanaethau a ddarperir gan DTC:

**49.10.2** – Elwy Valley Tree Services – Nodwyd – yn aros am ddau ddyfynbris arall

**49.10.3** – Phoenix Security – Nodwyd – yn aros am ddau ddyfynbris arall

## **Copi i bob cynghorydd tref**

*Oherwydd natur gyfrinachol busnes yr eitem agenda hon, o dan Ddeddf Cyrff Cyhoeddus (Mynediad i Gyfarfodydd) 1960 (adran 3), cynigir cynnig i eithrio'r cyhoedd wrth drafod yr eitem agenda hon.*

**Cauodd y Cadeirydd y cyfarfod am 19:22**

**Llofnod.....**

**Dyddiad.....**